



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 9 Gorffennaf 2024 am 6.00yh
yn rhithiol ac yn Ystafell Cyfarfod, Tŷ Cadwgan Castell Aberteifi
mewn lein a canllawiau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 9 July 2024 at 6.00pm
virtually and at a Meeting Room, Cadwgan House, Cardigan Castle
in line with guidelines of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021.

Presennol/Present—**Y Cyngorwyr/**Councillors: Olwen Davies (**yn y gadair** / in the chair), Catrin Miles, Teresa Harries, Richard Davies, John Adams-Lewis, Philippa Noble, Nick Bolton, Stephen Greenhalgh, Richard Jones, Siân Maehrlein, David Maehrlein, Llinos Haf-Jones (**Cyfieithydd/**Translator) a / and Eleri Maskell (**Clerc/**Clerk).

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

Croesawodd y Maer, y Cyng Olwen Davies, ei chyd-gynghorwyr i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am eu presenoldeb. Canmolodd Cyngorwyr Cyngor Tref Aberteifi Bwyllgor Eisteddfod yr Wyl Fawr ar wythnos lwyddiannus arall, a gofyn am lythyr yn cydnabod eu hymdrechion i'w anfon ymlaen i'r pwyllgor. Gofynnodd y cyngorwyr i lythyr llongyfarch gael ei anfon at Ben Lake ar ei ail-etholiad i'r senedd yn ddiweddar. Mynegodd y cyngorwyr hefyd eu gwerthfawrogiad o'r holl unigolion hynny sydd wedi bod yn brysur yn chwynnu a thacluso ein strydoedd, rhai ohonynt yn gynghorwyr eu hunain. Mae'r toriadau ar lefel sirol yn amlwg yn effeithio ar gyflwr ein palmentydd, mae'n bwysig fod y gymuned yn dod at ei gilydd i wella cyflwr ein tref.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

The Mayor, Cllr Olwen Davies, welcomed her fellow councillors to the meeting and thanked them for their presence. Cardigan Town Council Councillors commended the Gwyl Fawr Eisteddfod Committee on another successful week, and asked for a letter acknowledging their efforts to be forwarded to the committee. Councillors requested that a letter offering congratulations be sent to Ben Lake on his recent re-election to parliament. The councillors also expressed their appreciation at all those individuals who have been busy weeding and tidying our streets of late, some of them are councillors themselves. The cutbacks at county level are clearly affecting the condition of our pavements, it is important that the community come together to improve the condition of our town.

2. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a'r rhesymau a roddwyd.

Y Cyng Clive Davies - gwrthdaro â chyfarfod Aberporth; Trystan Phillips - ymrwymadau gwaith; Elaine Evans – achlysur penblwydd teuluol.

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

Cllr Clive Davies – clash with Aberporth meeting; Trystan Phillips – work commitments; Elaine Evans – family birthday occasion.

3. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb

Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr

adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council's Code of Conduct.

<i>Y Cyng / Cllr Siân Maehrlein: Pob mater yn ymwneud â chynllunio / All matters relating to planning.</i>	<i>Mae'r cynghorwyr yn eistedd ar y pwyllgor cynllunio / The councillors sits on the planning committee.</i>
<i>Y Cyng / Cllr Catrin Miles: Eitem 7) Cynllunio Rhif A240433 / Item 7) Planning No A240433.</i>	<i>Bydd 2 uned storio yn cael eu lleoli o flaen Theatr Byd Bychan sy'n cael ei chadeirio gan y cynghorydd / 2 storage units will be located in front of the Small World Theatre which is chaired by the councillor.</i>
<i>Y Cyng / Cllr Richard Jones: Eitem 8 c) Gohebiaeth rhif 106 / Item 8 c) Correspondence number 106.</i>	<i>Mae'r Cyng yn ymwneud â threfnu'r wyl sy'n cael ei chynnal ar ei dir / The Cllr is involved with the organising the festival which is held on his land.</i>
<i>Y Cyng / Cllr Olwen Davies, Catrin Miles a John Adams-Lewis: Materion Personol – diolch i bwyllgor Gwyl Fawr Aberteifi / Personal Matters: Thank you to the Gwyl Fawr Aberteifi Committee.</i>	<i>Mae'r cynghorwyr yn ymddiriedolwyr yr Wyl Fawr / The councillors are trustees for the Gwyl Fawr.</i>
<i>Y Cyng / Cllr Nick Bolton: Eitem 8. c) Ffordd fynediad gefn ar gyfer Heol y Gogledd / Item 8. c) Rear access road for North Road.</i>	<i>Mae'r ffordd fynediad yn rhedeg tu ôl i gartref y cynghorydd / The access road runs behind the councillor's home.</i>
<i>Y Cyng / Cllr Richard Davies: Eitem 8. I) Cofnodion Pwyllgor Ymgynghori Brenin Siôr. 11/23/3 a) Cynnig i osod cynhwysydd storio gwyrdd 20 troedfedd ar gae Brenin Siôr V o Glwb Pêl-droed Aberteifi / Item 8. I) King George V Advisory Committee Minutes; 11/23/3 a) Proposal to place a 20ft green storage container on the King George V field from Cardigan Football Club.</i>	<i>Y cynghorydd yw'r Bachan Deche a gyflogir i ofalu am y cae, gallai'r cynhwysydd storio effeithio ar ei rôl / The councillor is the Handyman employed to look after the field, the storage container could impact his role.</i>

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 4 Mehefin 2024. Cynigiwyd y Cynghorwyr bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fawrth 4 Mehefin yn gywir.

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday, 4 June 2024.

The Councillors proposed that the Tuesday, 4 June council meeting minutes be recorded as correct.

5. Adroddiad y Clerc

I dderbyn adroddiad gan Clerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2024.

- **Mae ein setiau radio newydd wedi'u rhaglennu ac yn barod i'w defnyddio, mae gennym ni'r drwydded ofynnol gan Ofcom yn ei lle. Bydd cytundeb yn cael ei roi i fudiadau lleol sydd am fenthyg y radios, a bydd cofnod o bwy sydd â pha radios pryd yn cael ei fonitro gan y Clerc. Bydd y cynghorwyr yn penderfynu pwy sydd â mynediad i'r radios fesul achos. Mae rhaglen digwyddiadau haf y Castell, y Carnifal a Gŵyl Crug Mawr i gyd**

wedi'u cymeradwyo i gael fenthyg rhai radios.

- Mae ein gwefan wedi'i diweddarau gyda lluniau, gwybodaeth a pholisïau newydd.
- Mae Ffurflen Flynyddol y Comisiwn Elusennau 2023 ar gyfer Caeau Chwarae Brenin Siôr V wedi'i chyflwyno.
- Mae cyfarfodydd wedi trefnu i'r dyddiadau canlynol i'w roi yn eich dyddiaduron os gwelwch yn dda:
Nos Fercher 10 Gorffennaf 2024 – 6.00pm Mathew Warns - Grand Care, Mr Richard Thomas: Prosiect Hosbis Arfaethedig.
Nos Fercher 10 Gorffennaf 2024 – 7.00pm Grŵp AWD Alun Davies: Safle gweithgynhyrchu plastig arfaethedig.
Nos Fercher 17 Gorffennaf 2024 – 6.00pm Paul Williams, CSC: Trafodaeth ynglŷn â darpariaeth toiledau cyhoeddus Aberteifi yn y dyfodol.

Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 4 June 2024.

- Our new radios are programmed and ready for use, we have the required Ofcom licence in place. A contract will be issued to local organisations who wish to borrow the radios, and a record of who has which radios when will be monitored by the Clerk. The councillors will decide who has access to the radios on a case to case basis. The Castle summer event programme, the Carnival and the Crug Mawr Festival have all been approved to have some radios on loan.
- Our website has been updated with new photos, information and policies.
- The Charity Commission Annual Return 2023 for the King George V Playing Fields has been submitted.
- Meetings have arranged for the following date to be placed in your diaries please:
Wednesday 10 July 2024 – 6.00pm Mathew Warns - Grand Care, Mr Richard Thomas: Proposed Hospice Project.
Wednesday 10 July 2024 – 7.00pm Alun Davies AWD Group: Proposed plastic manufacturing plant.
Wednesday 17 July 2024 – 6.00pm Paul Williams, CCC: Discussion regarding the future provision of Cardigan public toilets.

6. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat

I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahradd.

Ni nodwyd dim.

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

None noted.

7. Cynllunio

Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynnir a dadansoddi sylwadau priodol.

Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A240435	Highbury House Hotel, Pendre, Aberteifi, SA43 1JU.	<i>Addasiad arfaethedig o 2 annedd yn 7 fflat a'r holl waith cysylltiedig / Proposed</i>	<i>Nid oedd gan y cynghorwyr unrhyw wrthwynebiad / Councillors had no objections.</i>

		conversion of 2 dwellings in to 7 flats and all associated work.	
A240488	Emilia Trow, 9 St Mary Street, Aberteifi SA43 1HA.	<i>Creu ystafell ymolchi ar yr ail lawr, cyfuno un ystafell wely ensuite fach ar y llawr cyntaf yn ystafell ymolchi deuluol, tynnu'r wal rhwng y gegin a'r ystafell fwyta, tynnu to plastig rhychiog a gosod to llechi Cymreig yn ei le, gosod pwmp gwres ffynhonnell aer i gefn yr eiddo a'r holl waith adfer cyffredinol / Create a bathroom on the second floor, consolidate one small ensuite bedroom on the first floor into a family bathroom, remove the wall between the kitchen and dining room, remove corrugated plastic roof and replace with a Welsh slate roof, install an air source heat pump to the rear of the property and all general restoration works.</i>	<i>Mae'r Cynghorwyr yn cefnogi'r cais hwn / Councillors approve this application.</i>
A240433	<i>Victoria Goddard. Theatre Mwldan, Heol y Baddondy, Aberteifi, SA43 1JY.</i>	Lleoli 6 cynhwysydd storio metel (lliw gwyrdd) i ddarparu storfa ychwanegol hanfodol ar gyfer Theatr Mwldan. Mynediad/giât diogelwch newydd i faes parcio Bath House / Siting of 6 metal storage containers (green in colour) to provide essential additional storage for Theatre Mwldan. New access, security gate to Bath House car park.	<i>Nid oedd gan y cynghorwyr unrhyw wrthwynebiad / Councillors had no objections.</i>

8. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution

a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
01/07/24	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Gorffennaf/July)</i> <i>Band Lydan (Gorffennaf) / Broadband (July)</i>	A9 A20	D/D	£250.00(0.00) £20.00 (0.00)
10/07/24	<i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Mehefin/June)</i>	A5	BACS	£1470.09(0.00)
10/07/24	HMRC – <i>Taliad TWE ar gyfer 6 Mehefin 2024 - 5 Gorffennaf 2024 / PAYE payment for 6 June 2024 – 5 July 2024</i>	A16	BACS	£286.98(0.00)
10/07/24	<i>Bachan Deche / Handyperson (Mai/May)</i>	A19	BACS	£1050.00(0.00)

14/06/24	Gwasanaeth Cyfieithu / Translation Service	A18	BACS	£43.75(0.00)
06/06/24	Sharp – Monthly minimum copies fee	A7	BACS	£30.00(5.00)
25/05/24	E L Jones – Arwyddion / Signs Gwahoddiadau a rhagelnni sefydlu'r Maer / Invitations and programmes for the Mayor Installation Ceremony Papur A4 / A4 Paper	B8 A4 A7	BACS	£493.20(82.20) £252.80(20.80) £36.00(7.20)
10/07/24	Ofcom – Licence for radios	B8	BACS	£75.00(0.00)
12/06/24	ROSPA – Annual inspection fees	C3 C5	BACS	£103.20(17.20) £103.20(17.20)
06/06/24	Penrallt Garden Centre Ltd: <i>Blodau/Flowers.</i>	C1	BACS	£321.59(53.58)
04/06/24	Penrallt Garden Centre Ltd: <i>Blodau/Flowers.</i>	C1	BACS	£966.00(161.00)
25/06/24	Penrallt Garden Centre Ltd: <i>Blodau/Flowers.</i>	C1	BACS	£199.31(33.22)
16/06/24	Teifi Blooms – <i>Blodau Sefydlu'r Maer / Mayor</i> Installation Flowers.	A4	BACS	£116.00(19.34)
19/06/24	BT – <i>bill ffôn / phone bill.</i>	A20	BACS	£168.91(28.15)
03/07/24	<i>Un Llais Cymru / One Voice Wales -Cysiau hyfforddi /</i> Training courses.	A24	BACS	£80.00(0.00)
05/07/24	Line Technical Servies	B8	BACS	£100.00(0.00)
27/05/24	Trywydd – <i>Sefydlu'r Maer, Llogi cyfarpar / Mayor</i> Installation, Hire of equipment.	A4	BACS	£144.00(24.00)

Cynigodd y Cynghorwyr bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.

The Councillors proposed that the listed bills be paid.

Derbyniadau/Receipts:

04/06/2024	Ad-daliad TAW / VAT Repayment	£4,649.00
10/06/2024	Lloyds Bank: Llog / Interest	£88.45

b) Adroddiad Ariannol hyd ddiwedd Mehefin 2024 / Financial Report to the end of June 2024.

Mae'r adroddiad wedi ei flaenyrru ymlaen llaw i'r cynghorwyr. Cytunodd y Cynghorywr i gymeradwyo'r adroddiad ariannol uchod.

The report has been forwarded beforehand to all councillors. The councillors agreed to approve the above financial report.

c) Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
80	Sue Brett - Bendith: <i>Diolch am y rhodd / Thank you for the grant.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 03/06/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 03/06/2024.
81	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Cynhadledd Arfer Arloesol Dydd Mercher 3 Gorffennaf / Innovative Practice Conference on 3 July.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 04/06/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 04/06/2024.
82	Rhiannon John – <i>Swyddog Datblygu Trefi Gwledig, CSC / Rural Towns Development Officer, CCC: Angen adborth ar y dogfen brandio Trefi gan Orchard Media / Feedback required for the Orchard Media Branding document.</i>	<i>Mae cynghorwyr yn hapus gyda'r Ceredigion Spirit Guide, ni chyflwynwyd unrhyw adborth / Councillors are happy with the Ceredigion Spirit Guide, no feedback was submitted.</i>
83	Jayne Evans – <i>Rheolwraig, Cartref Gofal Glyn Nest / Manager, Glyn Nest Residential Home: Llythyr gwahoddiad a chalendr ar gyfer wythnos agored / Invite letter and calendar for the open week.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 05/06/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 05/06/2024.

84	CSC Adain Cau Ffyrdd: Digwyddiad Arbennig Cau Ffordd / CCC Road Closures Section, Temporary Road closure order: Stryd y Cei / Quay Street 10/07/2024 0930-15.30 yn dyddiol / daily.	Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 06/06/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 06/06/2024.
85	Ken Skates – Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth, Llwyodraeth Cymru / Cabinet Secretary for Transport, Welsh Government: Rhaglen Wrando Genedlaethol ar 20mya / National Listening Programme on 20mph.	Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 06/06/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 06/06/2024.
86	Bwletin Mehefin Costau Byw Ceredigion / June Cost of Living Bulletin.	Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 07/06/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 07/06/2024.
87	Tracy Gilmartin – Un Llais Cymru / One Voice Wales: Tîm y Ddraig yn cyflwyno – Ymsefydlu Cyngorwyr, o Safbwynt Clerc (Cymru) / presents – Councillor Induction, from a Clerk's Perspective (Wales).	Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 10/06/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 10/06/2024.
88	Rose Barter – Diweddariad ar sefyllfa mynediad safle Dŵr Cymru / Update on the Welsh Water site access situation.	Nodwyd, diolchodd y cyngorwyr i Ms Barter am roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt / Noted, councillors thanked Ms Barter for keeping them informed.
89	Tracy Gilmartin – Un Llais Cymru / One Voice Wales: Weminar Canllaw i Gludiant Cymunedol / Guide to Community Transport Webinar.	Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 11/06/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 11/06/2024.
90	Tudor Harries - Ysgrifennydd, Sioe Dydd Sadwrn Barlys / Secretary, Barley Saturday Show: Diolch am y rhodd / Thank you for the grant.	Er gwybodaeth / For your information.
91	Tracy Gilmartin – Un Llais Cymru / One Voice Wales: Cofnodion Drafft Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / Hywel Dda University Health Board Stakeholders Reference Group Draft Minutes.	Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 12/06/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 12/06/2024.
92	Gardd Goedwig Gymunedol Naturewise Community Forest Garden: Digwyddiad Diwrnod Agored / Open Day Event.	Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 12/06/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 12/06/2024.
93	Tracy Gilmartin – Un Llais Cymru / One Voice Wales: Canllawiau diweddaraf ar Cyfarfodydd Aml-loeliad / Latest guidance for Multi Location Meetings.	Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 12/06/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 12/06/2024.
94	Peter Richards – Ymateb i erthygl Tivyside ynghylch cyrtiau tenis tref Aberteifi / Response to the Tivyside article regarding Cardigan town tennis courts.	Nid yw dyfodol y cyrtiau tenis wedi'i ddatrys eto, bydd unrhyw ddatblygiadau yn cael eu rhannu / The future of the tennis courts is yet to be resolved, any developments will be shared.
95	Rhiannon Ling – Swyddog Datblygu Cymunedol / Community Development Officer, West and Wales Housing: Parc Chwarae Pentop / Pentop Play Area.	Mae'r cyngorwyr wedi penderfynu cymeradwyo'r prosiectau arfaethedig yn Ardal Chwarae Pentop / The councillors have resolved to approve the proposed projects at the Pentop Play Area.
96	Hystings Etholiad Cyffredinol Aberteifi / Cardigan General Election Hustings.	Cafodd y digwyddiad hwn ei ganslo / This event was cancelled.
97	Samantha Coward - Cynorthwydd Cyfreithiol, CSC/ Legal Assistant, CCC: Hysbys o orchymyn Cadw Coed, (1 goeden yn Maes y Dderwen, Aberteifi) / Notification of a Tree Preservation Order (1 tree at Maes y Dderwen, Cardigan).	Mae'r cyngorwyr yn cymeradwyo'r gorchymyn cadw hwn / The councillors approve this preservation order.
98	Bwletin Cynnal y Cardi Bulletin.	Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 24/06/2024. For your information. Forwarded to all councillors on 24/06/2024.
99	Paul Williams – Rheolwr Cyfleusterau Adeiladau, CSC / Building Facilities Manager, CCC: Cyfarfod I drafod dyfodol ddarpariaeth Toiledau Cyhoeddus yn Aberteifi /	Cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer dydd Mercher 17 Gorffennaf am 6.00pm ar Teams / Meeting arranged for Wednesday 17 July at 6.00pm on Teams.

	Meeting to discuss the future provision of the Public Toilets in Cardigan.	
100	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Weminar Canllaw i Ymgysylltiad Ieuencid / Guide to Youth Engagement Webinar.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 25/06/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 25/06/2024.
101	Adam Blackwell – <i>Rheolwr Llwyddiant Cwsmeriaid / Customer Success Manager, Kooth services: Cau gwasanaethau Kooth yng Ngorllewin Cymru / Closure of Kooth services in West Wales.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 25/06/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 25/06/2024.
102	Gari Jones – <i>Peiriannydd Seilwaith Cynaliadwy, CSC / Sustainable Infrastructure Engineer, CCC: Adroddiadau Cynnydd Cynlluniau Grant y Gronfa Teithio Llesol / Annual Progress Reports for Active Travel Fund Grant Schemes.</i>	<i>Mae'r cyngorwyr yn hapus gyda'r adroddiad a does ganddyn nhw ddim sylwadau pellach / The councillors are happy with the report and have no further comments.</i>
103	Tracy Gilmartin – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Ymgynghoriad newydd - blaenoriaethau draft ar gyfer Diwylliant 2024-2030 / New consultation: Draft priorities for Culture 2024-2030.</i>	Penderfynodd y cyngorwyr ymateb yn unigol i'r ymgynghoriad / The councillors resolved to respond individually to the consultation.
104	Wendi Patience – <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales: Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir yn mis Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi / Remote training sessions that are taking place in June, July, August and September.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 02/07/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 02/07/2024.
105	Alexander Bryant-Evans, Traws Cymru: <i>Gwasanaeth T5 Traws Cymru – Digwyddiadau Ymgysylltu Adborth Gwasanaeth / Traws Cymru T5 Service – Service Feedback Engagement Events.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 03/07/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 03/07/2024.
106	Bethan Williams – <i>Gwyl Crug Mawr: Cais am noddwyr / Request for sponsors.</i>	<i>Penderfynodd cyngorwyr noddi'r wyl gwerth £250 o gyllideb Digwyddiadau'r Haf / Councillors resolved to sponsor the festival to the value of £250 from the Summer Events budget.</i>
107	Jane Roche – <i>Grŵp Cymunedol Teifi: Cyfarfod â 4 Rivers 4 Life – CNC ddydd Mercher 10 Gorffennaf 2021 am 4.30pm yn y Fisherman's Rest / Teifi Community Group: Meeting with 4 Rivers 4 Life – NRW on Wednesday 10 July 2021 at 4.30pm at the Fisherman's Rest.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 03/07/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 03/07/2024.
108	Rhiannon Ling – <i>Swyddog Datblygu Cymunedol / Community Development Officer, West and Wales Housing: Parc Chwarae Pentop / Pentop Play Area.</i>	<i>Mae'r cyngorwyr wedi penderfynu cymeradwyo'r prosiectau arfaethedig yn Ardal Chwarae Pentop / The councillors have resolved to approve the proposed projects at the Pentop Play Area.</i>
109	<i>Partneriaeth Natur Ceredigion / Ceredigion Nature Partnership: Adfer Natur yn Nhrefi a Chymunedau Ceredigion / Nature Recovery in Ceredigion.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 05/07/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 05/07/2024.
110	Rose Barter – <i>Linc i'r erthygl newyddion ynghylch dichonoldeb newydd i lwybr mynediad gwaith carthion Aberteifi / Link to news article regarding new feasibility to Cardigan sewage works access route.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 05/07/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 05/07/2024.
111	Sandra Davies – <i>Rheolwr Gweithrediadau, Castell Aberteifi / Operations Manager, Cardigan Castle: Benthg radios y Cyngor am digwyddiadau Haf y castell / Loaning radios for the summer events programme at the castle.</i>	<i>Penderfynodd y cyngorwyr roi benthg y radios i'r castell ar gyfer eu rhaglen o ddiwyddiadau'r haf yn rhad ac am ddim / The councillors resolved to loan the radios to the castle for their summer events programme free of charge.</i>
112	<i>Bwletin Costau Byw Ceredigion / Cost of Living Bulletin: Gweithgareddau gwyliau'r haf am ddim neu gost isel / Free or low-cost summer holiday activities.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 05/07/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 05/07/2024.
113	<i>Diweddariad BroCardi360 Update.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 05/07/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 05/07/2024.

114	Alex Bryant-Evans – <i>Rheolwr Rhanddeiliaid, Trafnidiaeth Cymru / Stakeholder Manager, Transport for Wales: Gwasanaeth T5 Traws Cymru, digwyddiadau ymgysylltu adborth gwasanaeth / Traws Cymru T5 Service, service feedback engagement events.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cynghorwyr ar 05/07/2024.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 05/07/2024.
-----	--	---

d) Costau gwaith atgyweirio ac yswiriant ar gyfer y gadwyn faerol.

Cost gwaith atgyweirio £720.00. Wedi'i yswirio ar hyn o bryd am £42,349.50, wedi'i gynghori gan emyddion proffesiynol dylai fod yn ddwbl y swm hwn. Bydd dyfynbris cywir ar gyfer yr yswirwyr yn costio 0.5% o'r gwerth, er enghraifft pe bai'n cael ei brisio byddai £80,000 yn costio £400 i'w gael.

Penderfynodd y cynghorwyr wneud y gwaith atgyweirio angenrheidiol i'r gadwyn ac i brisiad newydd gael ei gynhyrchu at ddibenion yswiriant. Dywedodd y Cyng Olwen Davies y bydd yr casys newydd a brynwyd ar ddechrau ei thymor Maer yn amddiffyn y ddwy set o gadwyni yn well yn y dyfodol, oherwydd ni allant symud yn y cas oherwydd y sbwng y tu mewn iddynt.

Costs of repair work and insurance for Mayoral chain.

Cost of repair work £720.00. Currently insured for £42,349.50, advised by professional jewellers it should be double this amount. An accurate quote for the insurers will cost 0.5% of the value, for example if it was valued £80,000 would cost £400 to obtain.

The councillors resolved to carry out the necessary repairs to the chain and for a new valuation to be produced for insurance purposes. Cllr Olwen Davies stated that the new cases purchased at the beginning of her Mayoral term will better protect both sets of chains in the future, because they cannot move in the case due to the foam interior.

e) Ffordd fynediad gefn ar gyfer Heol y Gogledd.

Y Cynghorydd Sir Elaine Evans i gadarnhau perchnogaeth y lonydd hyn ac i holi a oes posibilrwydd y gallent gael eu hailwynebu gan CSC. Mae trigolion yn cwyno am eu cyflwr gwael. I'w osod ar Agenda mis Medi.

Rear access road for North Road.

County Councillor Elaine Evans to confirm ownership of these lanes and to enquire if there is a possibility they can be resurfaced by CCC. Residents are complaining about their poor state. To be placed on the September Agenda.

f) Polyn fflag Neuadd y Dref.

Mae angen ymholiad cyn ymgeisio ar gyfer yr ACLI er mwyn gallu sefydlu a oes angen caniatâd cynllunio / caniatâd hysbysebu, ac os felly, y prif ystyriaethau polisi.

Penderfynodd cynghorwyr ymweld yn unigol â Neuadd y Dref, y Senotaff a Chei'r Tywysog Siarl i weld faint o bolion fflag sydd eu hangen a'r union leoliadau dymunol. I'w roi ar Agenda mis Medi ar gyfer adborth.

Guildhall flagpole.

A pre-application enquiry for the LPA is required to be able to establish as to whether planning permission / advertisement consent is required, and if so, the main policy considerations.

Councillors resolved to individually visit the Guildhall, Cenotaph and Prince Charles Quay to determine how many flagpoles are required and the exact desired locations. To be placed on the September Agenda for feedback.

g) Postyn lamp wedi torri, Cnwc y Dintir.

Mae'r Cynghorwyr yn hapus gyda'r dyfynbrisiau a gafwyd ar gyfer y gwaith atgyweirio a

gofynnodd i'r Clerc eu hanfon ymlaen i Swyddfa'r Post.

Broken lamppost, Cnwc y Dintir.

Councillors are happy with the quotes obtained for the repair work and requested the Clerk to forward them to the Post Office.

h) Swydd wag ar gyfer Brysgyllwr.

Penderfynodd y cynghorwyr hysbysebu'r swydd ar eu gwefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â mynd at unigolion a allai fod â diddordeb yn y rôl.

Vacancy for a Mace Bearer.

The councillors resolved to advertise the position on their website and social media channels, as well as approaching individuals who may have an interest in the role.

i) Tir tu ôl Rhos y dre.

Cymeradwyodd y cynghorwyr y posibilrwydd o addasu'r darn o dir wastraff hon yn ardd gymunedol. Bydd y Clerc yn galw cyfarfod rhwng swyddogion CSC, cynrychiolwyr BlueGreen Cymru a'r Is-Bwyllgor Bioamrywiaeth i symud y prosiect yn ei flaen.

Land behind Rhos y Dre.

Councillors approved the possibility of converting this waste strip of land into a communal garden area. The Clerk will convene a meeting between CCC officers, BlueGreen Cymru representatives and the Biodiversity Sub-Committee to move the project forward.

j) Archebu fflag y Ddraig Goch i Brioude.

Sylwodd y Cyng Olwen Davies a Catrin Miles ar eu hymweliad diweddar â Brioude fod y Faner Gymreig oedd yn cael ei harddangos wedi pylu i liw pinc. Cytunodd cynghorwyr i brynu Baner Gymreig newydd i Brioude mewn pryd ar gyfer yr ŵyl nesaf i'w chynnal yn 2026. Bydd y Cyng Catrin Miles yn cysylltu â Monsieur le Maire de Brioude Jean-Luc VACHELARD, i ganfod maint y faner sydd ei hangen a'r hanes o amgylch y faner hen, gofynnodd y Cyng Richard Jones i'r hen faner gael ei dychwelyd i Gymru.

Purchasing a Welsh Flag for Brioude.

Cllrs Olwen Davies and Catrin Miles observed on their recent visit to Brioude that the Welsh Flag on display was faded to a pink colour. Councillors agreed to purchase a new Welsh Flag for Brioude in time for the next festival to be held in 2026. Cllr Catrin Miles will contact Monsieur le Maire de Brioude Jean-Luc VACHELARD, to ascertain the size of flag required and the history surrounding the last flag, Cllr Richard Jones requested the old flag to be returned to Wales.

k) Goleuadau Nadolig.

Mae Cyng Olwen Davies yn ymwybodol o breswlydd sydd am brynu golau "Nadolig Llawen" newydd. Mynegodd y Cynghorwyr eu diolchgarwch i'r unigolyn a gofyn i'r clerddod o hyd i addurniadau a phrisiau priodol i'r Cyng Davies eu rhannu a'u trafod gyda'r preswlydd mewn pryd ar gyfer yr ŵyl.

Christmas lights.

Cllr Olwen Davies is aware of a resident who wishes to purchase a new "Nadolig Llawen" Christmas light. Councillors expressed their gratitude to the individual and asked the clerk to source an appropriate decorations and prices for Cllr Davies to share and discuss with the resident in time for the festive season.

l) Cofnodion Pwyllgor Ymgynghori Brenin Siôr.

Mae'r cofnodion wedi ei flaenyrru ymlaen llaw i'r cynghorwyr. Materion yn codi:

11/23/3

a) Cynnig i osod cynhwysydd storio gwyrdd 20 troedfedd ar gae Brenin Siôr V o Glwb Pêl-droed Aberteifi.

Bydd y cynhwysydd storio newydd yn cael ei osod ar hyd y ffens nesaf at ddiwedd rhan y cae chwarae, sy'n rhedeg ar hyd Ffordd Gwbert. Bydd y cynhwysydd storio yn y maes parcio

yn cael ei symud. Bydd y cynhwysydd yn storio offer chwaraeon ac offer cynnal a chadw tir. Cynigiodd John Adams Lewis dderbyn y cais ac eiliodd David Maehrlein. Nid oedd unrhyw aelod o'r pwyllgor yn gwrthwynebu'r cynnig.

Mae cynghorwyr yn gofyn i'r clwb pêl-droed ofyn i CSC os oes angen caniatâd cynllunio cyn lleoli'r cynhwysydd storio ar y cae. Mae'r cynghorwyr yn ymwybodol bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer cynwysyddion storio fel arfer. Bydd y cais yn cael ei drafod eto ar ôl derbyn y wybodaeth hon.

b) Cynnig i godi ystafelloedd newid y Clwb Rygbi i ddau lawr tra'n aros am ganiatâd cynllunio.

Mae Pwyllgor y Clwb Rygbi yn ceisio cymeradwyaeth i gyflwyno cais cynllunio i godi adeilad yr ystafell newid un llawr i ddau lawr. Bydd hyn yn caniatáu gosod lifft ar gyfer mynediad i'r anabl, toiled i'r anabl ac adleoli'r gegin i'r estyniad newydd. Bydd y gwaith adeiladu yn amodol ar ganiatâd cynllunio. Roedd y Pwyllgor Ymgynghorol yn cefnogi'r cais, mae'r prosiect yn hanfodol i alluogi aelodau anabl i fwynhau'r cyfleusterau.

Croesawodd y cynghorwyr y cynnig hwn a chefnogwyd y prosiect.

Unrhyw Fater Arall.

Mae angen strimio a chlirio'r llwybr rhwng y Clwb Bowlio a'r Cwad Aml Chwaraeon, mae'r chwyn sy'n tyfu yno yn mynd yn ddigon mawr i achosi difrod i adeilad y clwb bowlio. Credir mai cyfrifoldeb y Cyngor Tref yw'r llwybr ac mae'r aelodau'n gofyn iddynt gymryd y dasg wrth law.

Penderfynodd y cynghorwyr ofyn i'r Bachan Deche gliri'r llwybr o chwyn.

Mae'r ffens gyferbyn â'r Eglwys Gatholig yn mynd dirywio. Mae'r pwyllgor yn gofyn i'r Cyngor Tref atgyweirio'r ffens neu fwrw ymlaen â'r syniad o ffin werdd yn lle'r ffens. Roedd yr opsiwn ar gyfer ffin werdd hefyd yn cael ei ystyried yn ateb ar Goedlan y Parc. Gallai coed a llwyni leihau nifer y peli sy'n taro'r tai.

Penderfynodd cynghorwyr atgyweirio'r ffens gyferbyn â'r Eglwys Gatholig. Mae'r Is-bwyllgor Bioamrywiaeth yn gyfrifol am ymchwilio i'r opsiwn o blannu ffin werdd ar hyd y ffens ac ystyried gwneud yr un peth ar Park Avenue.

Hoffai Clwb Pêl-droed Tref Aberteifi i'r bwlch o 15mtr yn y ffens ar Greenland Meadows gael ei gau oherwydd bod mynediad parhaus ar gael i gerddwyr cŵn sy'n arwain at faw cŵn rheolaidd ar y cae, yn enwedig gan ei fod yn cael ei ystyried yn afrealistig (i gael y gostyngiad gofynnol o 1:12) ar gyfer mynedfa ramp oherwydd y gostyngiad mewn uchder o'r grisiau presennol i'r glaswellt. Gan fod hwn yn fater I&D difrifol, a ellid ei wneud fel cais i'w gyflawni, o fewn cyfnod amserol 'i'w gadarnhau cyn gynted â phosibl'. Pe bai'r clwb yn gallu ariannu'r ffens newydd, a fyddai gan y Pwyllgor Ymgynghorol unrhyw wrthwynebiad. Dywedodd y cynghorwyr nad oedd ganddyn nhw unrhyw wrthwynebiad i'r Clwb Pêl-droed osod ffens newydd yn y bwlch ar Greenland Meadows. Nid oes cyllideb ar gael i'r Cyngor Tref gyflawni'r gwaith hwn yn y dyfodol agos. Gofynnodd y Cynghorwyr iddynt gael gwybod am unrhyw ddatblygiadau cyn i unrhyw waith gael ei wneud mewn perthynas â'r ffens newydd arfaethedig.

King George V Advisory Committee Minutes.

The minutes have been forwarded beforehand to all councillors. Matters arising:

11/23/3

a) Proposal to place a 20ft green storage container on the King George V field from Cardigan Football Club.

The new storage container will be placed along the fence next to the end of the playing field section, running along Gwbert Road. The storage container in the car park will be removed. The container will store sports equipment and ground maintenance tools. John Adams Lewis proposed to accept the request and David Maehrlein seconded. No committee members opposed the proposal.

Councillors request that the football club ask CCC if there is a requirement for planning permission to be approved before locating the storage container on the field. The councillors are aware that storage containers usually need planning permission. The request will be discussed again on receiving this information.

b) Proposal to raise the Rugby Club changing rooms to two storeys pending on planning permission.

The Rugby Club Committee are seeking approval to submit a planning application to raise the single floor changing room building to two storeys. This will allow for a lift to be installed for disabled access, a disabled toilet and to relocate the kitchen to the new extension. The building work will be subject to planning approval. The Advisory Committee supported the request, the project is essential to allow disabled members to enjoy the facilities.

The councillors welcomed this proposal and supported the project.

Any Other Business.

The pathway between the Bowling Club and Multi Sports Quad needs strimming and clearing, the weeds growing there are becoming large enough to cause damage to the bowling club building. The pathway is believed to be the responsibility of the Town council and members request they take the task to hand.

The councillors resolved to request the Handyman clear the pathway of weeds.

The fence opposite the Catholic Church is falling into disrepair. The committee are requesting the Town council repair the fence or proceed with the idea of a green border to replace the fence. The option for a green border was also deemed a solution on Park Avenue. Trees and bushes could reduce the number of balls hitting the houses.

Councillors resolved to repair the fence opposite the Catholic Church. The Biodiversity Sub-Committee are tasked to look into the option of planting a green border along the fence and to consider doing the same on Park Avenue.

*Cardigan Town Football Club would like the 15mtr gap in the fence on Greenland Meadows to be closed off due to **continued** available access to dog walkers which results in regular dog fouling on the pitch, especially as it was deemed unrealistic (**to get the required 1:12 fall**) for a ramped access given the drop in height from the existing steps to the grass. As this a severe H & S matter, could this be put on as request to be carried out, within a timely period 'to be confirmed as soon as possible'. If the club could fund the new fence, would the Advisory Committee have any objections.*

Councillors stated that they had no objection for the Football Club to install a new fence in the gap on Greenland Meadows. There is no budget available for the Town Council to complete this work for the imminent future. Councillors requested that they are informed of any developments prior to any work being carried out in relation to the proposed new fencing.

m) Adroddiadau ROSPA

Nid oes unrhyw faterion mawr wedi'u nodi yn un o'r adroddiadau. Mae'r Clerc a'r Bachan Deche wedi cydweithio a mynd i'r afael â'r pwyntiau gyda sgorau o 8 ac uwch sy'n cael eu hystyried yn risg ganolig ac efallai y bydd rhai mesurau rheoli yn cael eu nodi i leihau'r risgiau i lefelau isel, goddefadwy. Penderfynodd y Cynghorwyr dderbyn y canfyddiadau hyn. ROSPA reports.

There are no major issues specified in either report. The Clerk and Handyman have conferred and addressed the points with scores of 8 and above which are medium risk and some control measures may be identified to reduce the risks to low, tolerable levels. Councillors resolved to accept these findings.

9. Eitemau er gwybodaeth yn unig / Items for information only

a) Dyddiadur y Maer.

- **Dydd Iau 6 Mehefin: 80 mlynedd ers D-Day, gwasanaeth codi baner yng Nghastell Aberteifi.** Mynychodd Stephen Greenhalgh, fy nirprwy, ddatliad pellach ar gyfer pen-blwydd D-Day ddydd Sul 9 Mehefin yn y Clwb Bowlio, yn fy absenoldeb.
- **Dydd Mercher 12 Mehefin: Cyfarfod Grŵp Cymunedol Teifi, yn y Fisherman's Rest.**
- **Dydd Mercher 12 Mehefin: Cyfarfod Cynghrair y Cyfeillion.**
- **Dydd Sadwrn 15 Mehefin: Bore coffi Pwyllgor Gefeillio Patagonia.**
- **Sul 16 Mehefin: Rasio tractor, digwyddiad codi arian Sioe y Cardis.**
- **Dydd Iau 27 Mehefin: Lansio arddangosfa ffenestr Gwyl Fawr yn y siop lyfrau Leafed Through.**
- **Dydd Sadwrn 29 Mehefin: Marchnad Aberteifi, Neuadd y Dref, diwrnod cyntaf masnachu yn y farchnad ar ei newydd wedd.**
- **Dydd Sadwrn 29 Mehefin: Gwasanaeth Diwrnod y Lluoedd Arfog, Senotaff Aberteifi.**
- **Dydd Sadwrn 29 Mehefin: Lansiad Gwyl Fawr Aberteifi yng Nghastell Aberteifi.**
- **Sadwrn 29 Mehefin: Cyngerdd agoriadol Gwyl Fawr Aberteifi, Theatr Mwldan.**
- **Dydd Mercher 3 Gorffennaf: Wedi agor Siop Make It Personal Sacco's ar Heol y Gogledd.**
- **Sadwrn 6 Gorffennaf: Cadeirio'r Prifardd, Eisteddfod Gwyl Fawr.**
- **Dydd Sul 7 Gorffennaf: Casglu Sbwriel yn y Gymuned.**

Mayors' Diary.

- **Thursday 6 June: 80 year D-Day anniversary, the raising of the flag service at Cardigan Castle.** Stephen Greenhalgh, my deputy, attended a further celebration for the D-Day anniversary on Sunday 9 June in the Bowling Club, in my absence.
- **Wednesday 12 June: Teifi Community Group meeting, at the Fisherman's Rest.**
- **Wednesday 12 June: League of Friends meeting.**
- **Saturday 15 June: Patagonia Twinning Committee coffee morning.**
- **Sunday 16 June: Tractor racing, Sioe y Cardis fundraiser.**
- **Thursday 27 June: Launch of the Gwyl Fawr window display at the Leafed Through bookshop.**
- **Saturday 29 June: Cardigan market, Guildhall, first day of trading in the refurbished market.**
- **Saturday 29 June: Armed forces day service, Cardigan Cenotaph.**
- **Saturday 29 June: Gwyl Fawr Aberteifi launch at Cardigan Castle.**
- **Saturday 29 June: Gwyl Fawr Aberteifi opening concert, Theatre Mwldan.**
- **Wednesday 3 July: Opened Sacco's Make It Personal Shop on North Road.**
- **Saturday 6 July: Chairing of the Bard, Gwyl Fawr Eisteddfod.**
- **Sunday 7 July: Community Litter Pick.**

b) Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

Y Cyng Elaine Evans Ward Teifi

Dim adroddiad wedi ei gyflwyno.

CLlr Elaine Evans Teifi Ward

No report submitted.

Y Cyng Siân Maehrlein Ward Mwldan

- **Mynychu gwasanaeth dydd y Lluoedd Arfog ar Gofadail Aberteifi ddydd Sadwrn 29 Mehefin.**
- **Mynd i'r wyl barcud a gynhaliwyd ger Gwesty'r Cliff, wedi mwynhau'r digwyddiad gwych hwn yn fawr.**

- Ymunwyd â'r grŵp codi sbwriel ar ddechrau'r mis, a hefyd gwneud rhai o gwmpas ein stad lle rydym yn byw.

Cllr Siân Maehrlein Mwldan Ward

- Attended the Armed forces day service at Cardigan Cenotaph on Saturday 29 June.
- Went to the kite festival held out near the Cliff Hotel, really enjoyed this great event.
- Joined the litter picking group at the beginning of the month, and also do some around our estate where we live.

c) Adroddiad y Bachan Deche / Handy person's Report.

i. Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Children's Play Area

Ymunais â'r Clerc i ddarllen drwy adroddiad ROSPA. Y prif fater yw'r matiau rwber o dan yr offer sydd wedi diflannu i'r ddaear. Mae angen ei godi, ail-wynebu'r ardaloedd â phridd a gosod y matiau rwber ar ei ben. Yn ddelfrydol, dylid gwneud y gwaith hwn y gaeaf hwn. Dylid hefyd rhoi wyneb newydd ar wyneb y caeau pêl-droed a rygbi bob blwyddyn gyda haenen o dywod a phridd wedi'i ychwanegu at ei gilydd i gynnal wyneb gwastad braf.

I met the Clerk to read through the ROSPA report. The main issue is the rubber matting under the equipment which has disappeared into the ground. It needs to be lifted, the areas to be resurfaced with soil and the rubber matting to be replaced on top. This work should ideally be carried out this winter. The surface of the football and rugby fields should also be resurfaced on an annual basis with a layer of sand and soil top up to maintain a nice even surface.

ii. Man chwarae amlwrpas a chyrtau tenis/ Multi-purpose play area and Tennis Courts.

Dim i'w adrodd / Nothing to report.

iii. Maes Sgrialu /Skateboard Park

Dim i'w adrodd / Nothing to report.

iv. Maes Chwarae Pentop / Pentop Play Area.

Ymunais â Rhiannon Ling, swyddog Tai Wales and West i drafod lleoliad y sied a'r seddi newydd. Maen nhw wedi gofyn i'r ardal wylltio gael ei thorri. Mae'r arwydd ardal gwylltio diweddar wedi diflannu o'r parc.

I met with Rhiannon Ling, the Wales and West Housing officer to discuss the location of the new shed and seats. They have requested that the wilding area be mowed. The recent wilding area sign has disappeared from the park.

v. Cyffredinol / General

Mae gwialen ddr di-staen wedi'i harchebu i gwblhau'r gwaith atgyweirio sydd ei angen ar y ffens isel o amgylch y senotaff. Rwy'n bwriadu tynnu'r "Pabi" i'w glanhau a'i ail-alfaneiddio cyn iddo gael ei beintio. Mae'r arwyddion gwylltio wedi'u gosod yn Felin Ban, Ridgeway Hill a dau yn Netpool i hysbysu trigolion nad yw'r rhain yn ardaloedd torri gwair. Mae'r planc coll ar y sedd y tu allan i Neuadd y Dref wedi cael ei newid. Mae difrod i'n blodau tref yn gyffredin iawn, maent yn cael eu dadwreiddio a'u tynnu o'r potiau planhigion, yn bennaf y tu allan i Crwst a Neuadd y Dref dros y penwythnosau.

A stainless steel rod has been ordered to complete the repair work needed on the low fence surrounding the cenotaph. I intend to remove the "Poppy" to sand blast and regalanise it before it is painted. The wilding signs have been placed in Felin Ban, Ridgeway Hill and two at Netpool to advise residents that these are no mowing areas. The missing plank on the seat outside the Guildhall has been replaced. Damage to our town flowers is very common, they are uprooted and removed from the plant pots, mainly outside Crwst and the Guildhall over the weekends.

10. Datganiad chwarterol y Maer ynglŷn â diogelwch ei chadwyn. Sicrhodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.

Quarterly statement by the Mayor regarding safeguarding chain of office.

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.

11. Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf

Dyfodol y Cadwyni Maer.

Ffordd fynediad gefn ar gyfer Ffordd y Gogledd – diweddariad gan y Cynghorydd Sir Elaine Evans.

polyn fflag Neuadd y Ddinas/Cofadail.

Baner Cymru i Brioude – adborth gan Catrin Miles ynglŷn â maint sydd ei angen.

Items for the next Agenda

Future of the Mayoral Chains.

Rear access road for North Road – update from County Councillor Elaine Evans.

Guildhall/Cenotaph flagpole.

Welsh Flag for Brioude – feedback from Catrin Miles regarding size required.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.00yh.

There being no further business to discuss, the meeting closed at 8.00pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date